Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Ariannu'r Loteri Genedlaethol

## Beth mae angen ichi ei wybod wrth wneud cais

Ebrill 2021

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

## Hygyrchedd

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n darparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, sain, Hawdd ei Ddeall ac Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg os gofynnir amdani.

Os oes gennych unrhyw anghenion o ran **mynediad** ac rydych yn ystyried cyflwyno cais, gallwn helpu i sicrhau y cewch gefnogaeth yn ystod y broses ymgeisio. Cysylltwch â ni ar grantiau@celf.cymru i drafod sut y gallwn helpu.

Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru bolisi cyfle cyfartal ar waith.

### Beth i'w wneud os na allwch chi dderbyn arian o'r Loteri Genedlaethol

Os nad ydych chi'n gallu derbyn arian Loteri Genedlaethol am unrhyw resymau, dylech chi lanlwytho llythyr gyda'ch cais yn esbonio pam mae hyn yn wir. Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwn ni'n ceisio ariannu eich prosiect o arian o ffynonellau eraill.

# Cynnwys


Croeso 4

Ein Gweledigaeth 4

- Ein Cynllun Corfforaethol 4
- Dull mwy Cyfartal 4
- Gwella gallu a chydnerthedd 5
- Y Gymraeg 5
- Cymryd yr amser i gael eich cais yn iawn 5

Cymhwystra – Sefydliadau 6

- Cymhwystra a Llywodraethiant 7

Cymhwystra - Unigolion 11

Felly rydych chi'n gymwys, beth am eich prosiect? 12

Rhaglenni Ariannu 14

Dyddiadau cau ariannu 15

Y broses ymgeisio 16

- Hygyrchedd 17

Costau'r prosiect 19

- Ffioedd artistiaid 19

Costau nad ydym ni'n gallu eu talu 20

Cyfrifon banc 21

Gwybodaeth Ychwanegol 22

- Rhyddid Gwybodaeth 22
- Gweithdrefn Gwyno 22
- Atal Twyll 22
- Diogelu Data 22

Beth os oes gen i gwestiwn? 23

Ffyrdd eraill o gysylltu â ni 23

## Croeso

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth ymarferol am sut i wneud cais i un o'n rhaglenni ariannu'r Loteri Genedlaethol.

Mae'r byd yn wahanol iawn heddiw i'r hyn ydoedd cyn Covid-19. Mae'n bryd inni edrych o'r newydd ar sut i gyflawni sector celfyddydau cadarn a chydnerth sy'n adlewyrchu'n gywir pobl a chymunedau ein gwlad.

## Ein Gweledigaeth

Rydym eisiau i Gymru fod yn wlad deg, lewyrchus a chynaliadwy, a gwella ansawdd bywyd pobl yn ei **holl** gymunedau, gan weithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd angen i'r holl brosiectau y byddwn yn eu cyllido ddangos sut maent yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys yn eu llywodraethiant a'u gweithlu, a thrwy'r gweithgarwch maent yn ei ddatblygu a'i gyflwyno.

### Ein Cynllun Corfforaethol

Mae ein Cynllun Corfforaethol, 'Er Budd Pawb', yn disgrifio ein huchelgeisiau i'r celfyddydau yng Nghymru. Mae'n gosod y cywair ar gyfer ein cyllido a'n gweithio, ac yn dangos sut rydym yn gweithio tuag at gyflawni ein nod o wneud y celfyddydau'n ganolog i fywyd a llesiant y genedl: Cynllun Corfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru 2018-23

### Dull mwy Cyfartal

Rydym ni eisiau i fwy o bobl mewn cymunedau a lleoedd sy'n cael eu gwasanaethu llai gan y celfyddydau gael cyfleoedd i fwynhau a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol. Mae'n fethiant ar arian cyhoeddus i'r celfyddydau nad aed i'r afael â hyn yn iawn o'r blaen. Rhaid i hynny newid.

Mae llawer o bobl â "Nodweddion Gwarchodedig" wedi'u tangynrychioli yn y gweithgareddau rydym yn eu hariannu a'u cefnogi. Cyfeiria Nodweddion Gwarchodedig at y naw agwedd ar hunaniaeth unigolyn a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sef oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaethau sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae'n bwysig i ni ein bod yn gweld ceisiadau a all ddangos sut y byddant yn cynnwys ac yn adlewyrchu creadigrwydd pobl Fyddar a phobl anabl, a phobl sy'n amrywiol yn ethnig ac yn ddiwylliannol ar hyd oes y prosiect.

Mae'r prosiectau gorau'n dueddol o fod yn rhai a arweinir gan artistiaid ond sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa (neu gyfranogwr). Rydym eisiau cefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo'r amrywiaeth o leisiau, diwylliannau ac ieithoedd yng Nghymru – prosiectau sy'n golygu rhywbeth ac sy'n bwysig i'r rhai y'u bwriadwyd iddynt.

## Gwella gallu a chydnerthedd

Mae Covid-19 wedi cael effaith ddifrifol ar artistiaid, gweithwyr ar eu liwt eu hunain a sefydliadau. Mae'r celfyddydau'n fwy bregus nag yr oeddent cyn y pandemig.

Mae angen felly inni wneud iawn am amser a gollwyd drwy hyrwyddo talent greadigol ac ail-sefydlu'r partneriaethau a chydweithrediadau a fydd yn ein helpu ni i ail-godi ar ein traed.

Mae hyn oll yn dibynnu ar annog amrywiaeth ehangach o artistiaid, curaduron, cynhyrchwyr a thimau cynhyrchu a chreadigol ledled holl ranbarthau Cymru a thu hwnt. Bydd ein cyllid yn mynd ymhellach pan fo artistiaid unigol, gweithwyr creadigol ar eu liwt eu hunain, lleoliadau, cymunedau, cynulleidfaoedd a chyfranogwyr yn cael eu hystyried ar ddechrau'r broses o ddatblygu prosiect.

## Y Gymraeg

Rydym yn angerddol dros ddatblygu gwaith yn y Gymraeg. Rydym eisiau buddsoddi mewn prosiectau sy'n datblygu gallu a sgiliau artistiaid a gweithwyr proffesiynol sy'n dymuno gweithio yn Gymraeg. Bydd ein hasesiad o geisiadau'n ystyried effaith prosiect ar yr iaith a sut y gallai gyfrannu at y nod hwn.

## Cymryd yr amser i gael eich cais yn iawn

Dylech sicrhau bod eich gwaith cynllunio prosiect yn caniatáu digon o amser ichi gael popeth yn iawn. Bydd eich prosiect yn gryfach ac yn fwy cymhellol os caiff ei gynllunio'n dda.

## Cymhwystra – Sefydliadau

Mae angen inni sicrhau bod eich sefydliad wedi'i sefydlu'n gywir ac yn gallu rheoli cyllid cyhoeddus. Mae arnom angen rhai pethau allweddol.

**Rhaid** i'ch sefydliad:

- fod yng Nghymru, neu wlad arall yn y Deyrnas Unedig.
- bod â strwythur llywodraethiant sy'n bodloni ein gofynion (gweler yr adran ar lywodraethiant isod).
- bod â chyfrif banc yn enw'ch sefydliad sydd ag o leiaf dau berson a all awdurdodi trafodion (gweler yr adran ar gyfrifon banc tudalen 21)
- bod â Pholisi Cyfle Cyfartal sydd wedi cael ei adolygu gan eich corff llywodraethu yn y tair blynedd ddiwethaf ac sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol.
- peidio â bod heb gadw at unrhyw gytundeb ariannol gyda Chyngor Celfyddydau Cymru.
- peidio â bod ag unrhyw ofynion heb eu bodloni ar unrhyw gyllid arall Cyngor Celfyddydau Cymru.

Gallwch wneud mwy nag un cais, neu fod yn rhan o fwy nag un. Os felly, bydd angen ichi sicrhau bod gan eich sefydliad y gallu i gyflawni nifer o brosiectau'n effeithiol. Dylech nodi hyn yn glir yn eich cais.

Os yw'ch prosiect yn golygu gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion sy'n agored i niwed, bydd arnoch angen hefyd:

- Polisi Diogelu/ Amddiffyn Plant sydd wedi cael ei adolygu gan eich corff llywodraethu yn y tair blynedd ddiwethaf ac sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol.

Os yw unigolion neu sefydliadau partneriaethol eraill yn cyflawni gweithgarwch cyfranogol fel rhan o'r prosiect, megis gweithdai gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion sy'n agored i niwed, eich cyfrifoldeb chi fel yr ymgeisydd yw sicrhau bod Polisi Diogelu priodol ar waith.

Os ydych chi'n unigolyn yn gwneud cais i arwain gweithgareddau gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion sy'n agored i niwed, bydd angen ichi ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig y bydd partner sefydliadol â gweithdrefnau diogelu priodol ar waith yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddiogelu am gyfnod y prosiect.

## Cymhwystra a Llywodraethiant

Mae'n bwysig y caiff arian cyhoeddus ei wario'n gywir ac yn dda.

Gall sefydliadau wneud cais i ni os ydynt yng Nghymru neu wlad arall yn y Deyrnas Unedig ac â chyfansoddiad ffurfiol fel un o'r canlynol:

- Cwmni Cyfyngedig drwy Warant
- elusen gofrestredig (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol)
- Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO)
- Cwmni Buddiant Cymunedol (CIC)
- Cwmni Cyfyngedig drwy Gyfrannau (gweler y meini prawf o ran budd i'r cyhoedd isod)
- Sefydliad Anghorfforedig
- Partneriaeth, gan gynnwys Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (lle nad yw'r Cyfarwyddwyr yn yr un cyfeiriad)
- Awdurdod Lleol, Prifysgol neu Gorff Cyhoeddus arall

Nid yw'r sefydliadau canlynol yn gymwys i wneud cais i ni am gyllid:

- adrannau o lywodraethau
- ysgolion (edrychwch ar raglenni Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau yn lle hynny)
- sefydliadau sydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig

Mae sefydliadau sydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn gymwys i fod yn bartner mewn cais prosiect os yw'r budd cyhoeddus yn amlwg yn berthnasol i Gymru.

Ni chaiff y cyllid ddyblygu unrhyw gyllid arall gan Gyngor Celfyddydau Cymru na chyllid gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Covid-19.

Os nad ydych erioed wedi gwneud cais i ni am gyllid o'r blaen:

- bydd angen ichi lanlwytho copi wedi'i lofnodi o'ch dogfen llywodraethu i'n porth ymgeisio ar-lein.

Os ydych wedi gwneud cais i ni am gyllid yn y gorffennol:

- ni fydd angen ichi lanlwytho copi wedi'i lofnodi o'ch dogfen llywodraethu i'n porth ymgeisio ar-lein oni bai nad ydych wedi ei chyflwyno inni yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, neu os yw wedi cael ei diweddaru ers y tro diwethaf ichi wneud cais.

Mae'r tabl isod yn nodi'r mathau o sefydliadau y gallwn eu hariannu, a'r hyn y byddwn ni eisiau ichi ei gynnwys yn eich dogfennau llywodraethu.

Os nad yw'ch math chi o sefydliad ar y rhestr, neu os nad ydych yn siŵr a yw'ch sefydliad yn gymwys, cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth

| Strwythur Sefydliadol | Gofynion Llywodraethu |
|---|---|
| Cwmni Cyfyngedig drwy Warant<br><br>Sefydliad Corfforedig Elusennol<br><br>Cwmni Buddiant Cymunedol<br><br>Ymddiriedolaeth Elusennol | Rhaid i'r sefydliad fod ag o leiaf 2 ymddiriedolwr/gyfarwyddwr nad ydynt yn perthyn i'w gilydd neu nad ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad.<br><br>Rhaid i'r dogfennau llywodraethu:<br>• fod wedi'u llofnodi gan o leiaf dau ymddiriedolwr/gyfarwyddwr<br>• fod wedi'u cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau a/neu'r Comisiwn Elusennau<br>• nodi bod cyfarfodydd rheolaidd o'r bwrdd i gael eu cynnal<br>• cynnwys cworwm priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau<br>• cynnwys cymal Diddymu neu Glo Asedau priodol (gweler isod i gael cyfarwyddyd) |
| Cwmni Cyfyngedig drwy Gyfrannau | Rhaid i'r sefydliad fod ag o leiaf 2 ymddiriedolwr/gyfarwyddwr nad ydynt yn perthyn i'w gilydd neu nad ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad.<br><br>Rhaid i'r dogfennau llywodraethu:<br>• fod wedi'u llofnodi gan o leiaf dau ymddiriedolwr/gyfarwyddwr<br>• fod wedi'u cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau a/neu'r Comisiwn Elusennau.<br>• nodi bod cyfarfodydd rheolaidd o'r bwrdd i gael eu cynnal<br>• Cynnwys cworwm priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau |
| Sefydliad Anghorfforedig | Rhaid i'r sefydliad fod ag o leiaf 2 ymddiriedolwr/gyfarwyddwr nad ydynt yn perthyn i'w gilydd neu nad ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad.<br><br>Rhaid i'r dogfennau llywodraethu:<br>• fod wedi'u llofnodi gan o leiaf dau ymddiriedolwr/gyfarwyddwr<br>• nodi bod cyfarfodydd rheolaidd o fwrdd neu gorff llywodraethu yn cael eu cynnal<br>• cynnwys cworwm priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau<br>• cynnwys cymal Diddymu neu Glo Asedau priodol (gweler isod i gael cyfarwyddyd) |

| Strwythur Sefydliadol | Gofynion Llywodraethu |
| --- | --- |
| Byrddau Iechyd,<br>Prifysgolion,<br>Awdurdodau Lleol<br><br>Sefydliadau heb fwrdd annibynnol, ond wedi'u llywodraethu gan yr uchod | Nid oes angen dogfennau llywodraethu ar gyfer y sefydliadau hyn, ond bydd angen inni weld llythyrau yn cefnogi'ch cais oddi wrth dau uwch aelod o bersonél. |
| Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig | Rhaid i'r sefydliad fod ag o leiaf 2 ymddiriedolwr/gyfarwyddwr nad ydynt yn perthyn i'w gilydd neu nad ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad.<br><br>Rhaid i'r cytundeb partneriaeth:<br>• fod wedi'i lofnodi gan yr holl bartneriaid<br>• nodi bod cyfarfodydd rheolaidd o'r bartneriaieth i gael eu cynnal<br>• cynnwys cworwm priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau<br>• cynnwys cymal Diddymu priodol |
| Corfforaethau Statudol | Dylech siarad â Swyddog o Gyngor Celfyddydau Cymru cyn gwneud cais |
| Cymdeithasau Tai | Dylech ddefnyddio'r tabl uchod i ganfod eich strwythur |
| Mae aelodau **Portffolio Celfyddydol Cymru'n** gymwys i wneud cais. Fodd bynnag, rydym yn eich annog i drafod eich cynnig gyda'ch swyddog 'arweiniol' cyn gwneud cais fel ein bod ni'n gwybod sut mae'ch prosiect yn cyd-fynd â'ch gweithgareddau eraill a ariennir. | |

## Diffiniadau

Rydym yn diffinio **ymddiriedolwyr sy'n perthyn** i'w gilydd fel:

- Aelodau o'r teulu sy'n ymestyn i fam, tad, brawd, chwaer, mab, merch, nain/mam-gu neu daid/dad-cu.
- Perthnasau trwy briodas sy'n ymestyn i briod, mab yng nghyfraith neu ferch yng nghyfraith, a mam yng nghyfraith neu dad yng nghyfraith.

Mae **cymal diddymu** yn nodi'r hyn fydd yn digwydd i asedau sefydliad sy'n weddill (sy'n cynnwys arian parod ac asedau eraill) os caiff y sefydliad ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu.

Mae arnom angen cymal diddymu sy’n nodi y caiff unrhyw asedau sy’n weddill eu trosglwyddo i sefydliad sydd ag amcanion tebyg. Mae hyn yn sicrhau y caiff buddsoddiad arian cyhoeddus yn y celfyddydau ei ddiogelu.

Mae **Clo Asedau** yn sicrhau y caiff asedau sefydliad (gan gynnwys unrhyw elw neu warged arall a gynhyrchir gan ei weithgareddau) eu defnyddio er budd y gymuned.

Nid oes rhaid bod y celfyddydau wedi’u nodi yn amcanion eich sefydliad fel rhan o’i ddogfen llywodraethu, ond rydym yn hybu hyn yn gryf. Mae’n bosibl y bydd ei gynnwys yn rhoi inni sicrwydd ychwanegol ynghylch nodau artistig eich prosiect.

## Cymhwystra - Unigolion

I fod yn gymwys i wneud cais fel Artist Unigol neu Weithiwr Creadigol ar ei liwt ei hun (sy'n cynnwys unig fasnachwyr ac unigolion sy'n masnachu fel busnes), rhaid ichi:

- allu gwneud cais yn **enw cyfreithiol** yr unigolyn sy'n gwneud y cais.
- bod â chyfrif banc yn eich **enw cyfreithiol** (gweler yr adran ar gyfrifon banc tudalen 21)
- bod yn hŷn na 18 oed a byw yng Nghymru.
- bod yn dilyn gyrfa artistig neu gael eich cyflogi'n broffesiynol yn y celfyddydau yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ymarferwyr ar eu liwt eu hunain.
- peidio â bod mewn addysg amser llawn mewn ysgol, coleg neu brifysgol.
- gallu darparu tystiolaeth o'ch hanes o hwyluso neu greu gwaith artistig i'w gyflwyno i gynulleidfaoedd.
- peidio â bod heb gadw at unrhyw gytundeb ariannol gyda Chyngor Celfyddydau Cymru
- peidio â bod ag unrhyw ofynion heb eu bodloni ar ddyfarniadau cyllid grant Cyngor Celfyddydau Cymru.

Ni fyddwn ni'n ariannu unrhyw un sy'n gweithio ers llai na blwyddyn ac nad yw wedi cael o leiaf un darn o waith wedi'i gynhyrchu, ei gyflwyno, ei gyhoeddi neu ei arddangos yn broffesiynol, am ein bod ni'n disgwyl gweld tystiolaeth o ymarfer proffesiynol fel sail i'r gweithgaredd rydych chi eisiau inni ei gefnogi.

Ni allwn dalu am astudiaethau amser llawn na rhan amser, hyfforddiant unigol, gwersi na hyfforddiant galwedigaethol. Fodd bynnag, gallwn ni eich cefnogi chi i gael hyfforddiant i wella'ch arferion creadigol a buddsoddi yn y sgiliau a fydd yn eich helpu chi i adeiladu gyrfa gynaliadwy yng Nghymru.

## Felly rydych chi'n gymwys, beth am eich prosiect?

Yn gyntaf, ychydig o bethau sylfaenol...

| | |
|---|---|
| Rhaid cynnal eich prosiect yng Nghymru yn bennaf | Gallwn ystyried ariannu gweithgaredd hyfforddi neu ddatblygu y tu allan i Gymru (lle nad oes darpariaeth debyg ar gael yng Nghymru).<br><br>Gallwn ystyried ariannu hyd at 15% o gost prosiect i alluogi teithio neu weithgarwch y tu allan i Gymru. Gallwn ystyried ariannu rhywfaint o weithgarwch rhyngwladol fel rhan o brosiect ehangach os rhoddir rhesymeg glir. |
| Rhaid i'ch prosiect ategu eich rhaglen weithgarwch arferol a'i gwella | Mae hyn yn golygu na ddylai fod yn rhan o'ch gweithgarwch craidd na chynnwys costau craidd. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer aelodau Portffolio Celfyddydol Cymru. |
| Rhaid i'ch prosiect gynnwys gweithio gydag eraill. | Mae'r prosiectau gorau'n digwydd pan fydd partneriaid yn cymryd rhan. Gallai fod yn sefydliad partner, cyfaill beirniadol, mentor artistig, cynghorydd busnes neu ddarparwr hyfforddiant. Byddwn yn disgwyl eich gweld yn gweithio gydag o leiaf un unigolyn neu sefydliad arall a fydd yn eich cynorthwyo chi i ddatblygu a chyflawni'ch prosiect. |
| Rhaid i'ch prosiect fod yn gyfyngedig o ran amser | Mae hyn yn golygu dyddiad cychwyn a dyddiad gorffen pendant. Mae'n syniad da i ganiatáu rhywfaint o amser ychwanegol i chi'ch hun rhag ofn bod angen ichi anfon mwy o wybodaeth atom ar ôl i arian gael ei ddyfarnu. |
| Rhaid ichi sicrhau cyllid arall i gyfrannu at gostau cyffredinol eich prosiect | Rydym yn disgwyl i ganran o'ch incwm prosiect ddod o ffynonellau ar wahân i Gyngor y Celfyddydau neu'r Loteri Genedlaethol. |

Mewn rhai achosion, rydym yn 'dirprwyo' arian y Loteri Genedlaethol i sefydliadau arbenigol sy'n gweithio ar ein rhan i gynnal rhaglenni cyllido sy'n berthnasol i grwpiau penodol.

Os yw'ch prosiect yn canolbwyntio ar **lenyddiaeth** cysylltwch â **Llenyddiaeth Cymru**, llenyddiaethcymru.org 029 20 47 2266 / post@llenyddiaethcymru.org

Os yw'ch prosiect yn canolbwyntio ar ffilm cysylltwch â Ffilm Cymru Wales,: ffilmcymruwales.com / 029 21 679 369 /enquiries@ffilmcymruwales.com

Mae Tŷ Cerdd yn dosbarthu arian y Loteri ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru, i helpu sefydliadau i ddatblygu'r broses o greu cerddoriaeth o bob math mewn cymunedau yng Nghymru. Cysylltwch â'r Tŷ Cerdd i drafod sut allai'ch helpu chi: tycerdd.org/ enquiries@tycerdd.org

## Rhaglenni Ariannu

Yn ystod blwyddyn ariannol Ebrill 2021 i Fawrth 2022, bwriadwn ddosbarthu oddeutu £20 miliwn o arian y Loteri Genedlaethol i gynorthwyo sector y celfyddydau – gyda chyfleoedd i unigolion a sefydliadau.

Mae rhaglenni ariannu'n cynnwys:

- arian cyfalaf grant bach er mwyn i leoliadau i wneud newidiadau a fydd yn eu helpu i ail-agor;
- arian ar gyfer prosiectau sy'n mynd i'r afael â'r heriau presennol o ran iechyd a lles;
- arian i sefydliadau greu gwaith newydd ac ail-adeiladu cynulleidfaoedd lleoliadau a gwyliau;
- arian i unigolion greu gwaith newydd, buddsoddi mewn ymchwil a datblygu, a chefnogi hyfforddiant a datblygiad proffesiynol;
- arian sy'n annog ysgolion i roi creadigrwydd wrth galon y cwricwlwm;
- arian i sefydliadau ac artistiaid sy'n dod â gwaith lleisiau newydd a chymunedau nad oes ganddynt ddigon o gynrychiolaeth i sylw cynulleidfaoedd;
- arian i gynorthwyo sefydliadau ac artistiaid Cymru i greu cysylltiadau a gweithio'n rhyngwladol.

Gallwch weld y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglenni ariannu sydd ar agor i ymgeisio iddynt drwy fynd i [celf.cymru](celf.cymru)

## Dyddiadau cau ariannu

**Nid oes dyddiadau cau i grantiau bach**, ond rhaid ichi **ganiatáu o leiaf chwe wythnos** waith rhwng dyddiad cyflwyno eich cais a dyddiad dechrau eich prosiect.

Mae **dyddiadau cau penodol i geisiadau am grantiau mawr**. Caiff y rhain eu cyhoeddi ar ein gwefan. Rhaid ichi ganiatáu o leiaf naw wythnos waith rhwng y dyddiad cau a dyddiad dechrau eich prosiect.

**Rhaid i geisiadau fod yn gyflawn ac ni fyddwn yn derbyn mwy o wybodaeth ategol ar ôl eu cyflwyno.**

Rhaid i weddill incwm eich prosiect beidio â dod o arian Cyngor Celfyddydau Cymru a rhaid i 10% o leiaf o incwm eich prosiect beidio â dod o arian arall y Loteri Genedlaethol. Gallwch gael gwybod mwy am arian partneriaeth ac arian mewn nwyddau yn ein Nodiadau Cymorth wrth Ymgeisio.

Mae cystadlu brwd am ein cyllid ac ni allwn ariannu pob cais. Rydym hefyd yn ymwybodol bod angen ein cymorth ar lawer iawn o bobl ar hyn o bryd.

## Y broses ymgeisio

1. Bydd angen ichi ddefnyddio ein 'porth' ar-lein i wneud cais. Os nad ydych wedi gwneud eisoes, bydd angen ichi gofrestru i gael mynediad i'r porth. Gallwch weld sut i wneud hyn yma.

2. Llenwch a chyflwynwch ffurflen gais ar-lein ar ein porth. Os na allwch gyrchu'r ffurflen ar-lein, neu os oes arnoch angen rhagor o gymorth, cysylltwch â ni ar grantiau@celf.cymru. Ar ôl inni gael eich cais, byddwn yn anfon cydnabyddiaeth atoch.

3. Byddwn yn gwirio'ch cymhwystra. Byddwn hefyd yn adolygu cyllideb eich prosiect i sicrhau bod y ffigurau'n edrych yn gywir. Os oes unrhyw wybodaeth yn eisiau, byddwn yn cysylltu â chi. Bydd gennych hyd at 5 diwrnod gwaith i ddatrys unrhyw faterion sydd ar ôl.

4. Os yw'ch cais yn gymwys, bydd yn mynd ymlaen i'r cam asesu.

   Mae'r **holl** geisiadau'n destun yr un broses gwirio ac asesu drwyadl.

   Caiff cyfarfodydd penderfynu grantiau eu cadeirio gan un o'n Rheolwyr Portffolio. Gall paneli gynnwys Cydweithwyr Celfyddydol gydag amrywiaeth fawr o arbenigedd o bob rhan o Gymru.

   Caiff eich cais ei asesu yn erbyn y meini prawf cyhoeddedig ac ansawdd eich cynnig artistig.

   Dim ond y ceisiadau sy'n cyflwyno'r achos mwyaf cymhellol a darbwyllol yn erbyn y meini prawf ariannu y byddwn ni'n gallu eu cefnogi.

5. Os yw'ch cais yn llwyddiannus, byddwn yn anfon atoch ddogfen Derbyn y Dyfarniad. Os na fuoch yn llwyddiannus, byddwn yn ysgrifennu atoch i esbonio pam ac yn cynnig cyfle ichi gael adborth.

6. Pan fyddwch wedi llofnodi a dychwelyd eich dogfen Derbyn y Dyfarniad a phan fyddwn wedi gwirio'ch manylion, byddwn yn talu ichi ganran o'r dyfarniad (gan ddibynnu ar anghenion eich prosiect). Byddwn yn talu'r 10% olaf ar ddiwedd eich prosiect, ar ôl inni gael Adroddiad Cwblhau.

Gall ein Tîm Grantiau a Gwybodaeth eich cynorthwyo gyda'r canlynol:

- os nad ydych yn siŵr a ydych yn gymwys
- os na wyddoch a yw'ch prosiect yn cyd-fynd yn dda gyda'n blaenoriaethau
- os oes gennych ymholiad technegol am y broses ymgeisio
- os oes arnoch angen mwy o wybodaeth gyffredinol am y rhaglenni ariannu gwahanol

Gallwch gysylltu drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar ein gwefan, trwy anfon neges e-bost at grantiau@celf.cymru, neu drwy ffonio 03301 242733 (dewiswch opsiwn 1, ac opsiwn 1 eto)

Os ydych chi eisoes yn siŵr bod eich prosiect yn bodloni'r meini prawf, mae croeso ichi gysylltu â'n Tîm Datblygu i drafod eich prosiect yn fwy manwl.

Ffurflen ar-lein

E-bost: datblygu@celf.cymru

Ffôn: 03301 242733 (dewiswch opsiwn 1, wedyn opsiwn 4)

Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch, gan gynnwys:

- eich enw
- teitl y prosiect
- disgrifiad o'ch prosiect
- sut bydd eich prosiect yn cyd-fynd ag un neu fwy o'n hamcanion corfforaethol
- y swm rydych chi eisiau gwneud cais amdano
- ble bydd eich prosiect yn digwydd

## Hygyrchedd

Cysylltwch â'n tîm Grantiau a Gwybodaeth gan ddefnyddio'r manylion ar dudalen 23 i drafod sut allwn ni helpu gydag anghenion mynediad penodol.

1. Ymgeisio am gyllid

   Gallwn helpu i sicrhau y byddwch yn cael cymorth yn ystod y broses ymgeisio. Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n ei chael yn anodd mynegi syniadau'ch prosiect ar eich ffurflen gais.

## 2. Rhedeg eich prosiect

Os yw'ch cais yn llwyddiannus, gallwn helpu i dalu costau cymorth hygyrchedd fel:

- Costau dehonglydd
- Gweithwyr cymorth
- Offer neu feddalwedd arbenigol

Ni fyddwn yn ystyried costau hygyrchedd wrth bennu'r uchafswm y gallwch ymgeisio amdano.

Er enghraifft: Efallai y byddwch yn gwneud cais inni am £10,000 i'ch prosiect, a £500 yw eich costau mynediad personol. Mae'r costau hygyrchedd personol yn **ychwanegol**, felly cost gyfan eich cais yw £10,500. Os yw eich costau hygyrchedd personol yn mynd â'ch cais dros y trothwy uchaf, ni fydd angen ichi ofyn inni am ganiatâd arbennig ar gyfer y costau ychwanegol.

Mae rhagor o wybodaeth am gostau hygyrchedd yn ein Nodiadau Cymorth, neu gallwch eu trafod gyda Swyddog Datblygu gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar dudalen 17

## 3. Eich cynulleidfa/cyfranogwyr

Gallwch gynnwys costau hygyrchedd yn eich cyllideb i wneud eich gweithgareddau'n fwy hygyrch i bobl F/fyddar ac anabl. Yn ein templed cyllideb prosiect mae adran yn y tab Gwariant lle gallwch gynnwys costau hygyrchedd i gynorthwyo â hyn. Cewch fwy o fanylion am y math o gostau y gallwn gynorthwyo â nhw yn ein Nodiadau Cymorth. Meddyliwch am unrhyw gostau hygyrchedd mor gynnar ag y gallwch yn y broses o gynllunio'ch prosiect.

Gallwch lawrlwytho ein canllaw, Gwneud eich gwaith yn hygyrch yma: https://celf.cymru/sites/default/files/2019-10/Gwneud eich gwaith yn hygyrch.pdf

Efallai y byddwch hefyd eisiau ystyried cynllun Mynediad i Waith y Llywodraeth, a all eich cynorthwyo os oes gennych anabledd neu gyflwr iechyd sy'n ei wneud yn anodd ichi gyflawni'ch swydd, neu gyrraedd y gwaith ac yn ôl: Ceir mwy o wybodaeth yma: www.gov.uk/access-to-work

# Costau'r prosiect

## Ffioedd artistiaid

Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr eich bod chi'n talu eich hun, ac aelodau o'ch tîm, yn iawn. Dylai eich prosiect gynnwys ffioedd i dalu am eich amser chi a'u hamser nhw. Mae ffioedd yn gallu bod hyd at 100% o wariant eich prosiect.

Ni fyddwn ni'n ariannu cais lle nad oes ffi ar gyfer chi eich hun neu eich cydweithwyr neu ddim ond ffi isel iawn, iawn sydd yn y gyllideb. Hoffem weld eich bod wedi cyfeirio at gyfraddau safonau diwydiant sy'n berthnasol i'ch ymarfer chi a dylech chi o leiaf dalu cyfraddau lleiaf y diwydiant. Lle nad oes cyfraddau lleiafsymiol i'r diwydiant ar gael, rhaid ichi dalu'r Cyflog Byw Cenedlaethol o leiaf.

Gall undebau llafur a sefydliadau cymorth gynnig arweiniad am gyflogau a ffioedd lleiaf mewn diwydiant.

| Pwy/dolen | Ar gyfer |
|---|---|
| a-n | Cwmni Gwybodaeth Artistiaid (i artistiaid gweledol) |
| AOP | Cymdeithas Ffotograffiaeth |
| BECTU | Yr Undeb Darlledu, Adloniant, Cyfathrebu a Theatr (i staff technegol) |
| Equity | I actorion, cantorion a dawnswyr |
| ISM | Cymdeithas Gorfforedig y Cantorion |
| itc | Cyngor Theatr Annibynnol (i ymarferwyr theatr) |
| Musicians' Union | Undeb i gerddorion |
| WGGB | Urdd Ysgrifenwyr Prydain |
| UK Theatre | I staff theatr a cherddorion |

### Dylech nodi:

Mae angen i unrhyw ffioedd dros £5,000 gael eu hysbysebu a'u recriwtio drwy ddetholiad agored oni bai fod rhesymeg glir dros beidio â gwneud hyn, y bydd angen ei hesbonio yn eich cais.

## Costau nad ydym ni'n gallu eu talu

Mae rhai costau na allwn eu talu:

- gweithgareddau nad ydyn nhw'n ymwneud â'r celfyddydau
- ffioedd neu daliadau banc, cyfreithiol, cyfrifyddu ac archwilio
- gorbenion parhaus, er enghraifft rhent a chostau cyfleustodau
- ffioedd rydych yn eu talu am gyngor a/neu help i gwblhau eich cais
- gweithgareddau codi arian
- costau lansio
- gwobrau, nwyddau, anrhegion, blodau, tân gwyllt a phyrotechneg eraill, digwyddiadau cystadleuol a digwyddiadau i hyrwyddo rhywbeth yn unig
- costau ôl-weithredol, sef gweithgarwch sydd eisoes wedi digwydd, neu unrhyw gostau rydych chi wedi'u talu neu gytuno i'w talu (drwy lofnodi contract neu gyflwyno archeb er enghraifft), cyn inni wneud penderfyniad ar eich cais a'ch bod wedi derbyn ein cynnig o grant. Os ydych chi'n hysbysebu neu hyrwyddo eich prosiect cyn hyn, ar eich menter eich hyn rydych chi'n ei wneud. **Nid ydym ni'n gallu ariannu prosiectau sydd eisoes yn gwerthu tocynnau**.
- cyrsiau israddedig neu rai ôl-radd amser llawn neu ran-amser mewn sefydliadau addysg bellach neu uwch. Hefyd, nid ydym ni'n gallu cefnogi hyfforddiant unigol, gwersi na hyfforddiant galwedigaethol.
- Prosiectau gydag ysgolion yn ystod amser cwricwlwm ysgolion

Fel arfer nid ydym ni'n gallu ariannu costau arlwyo.  Fodd bynnag, lle bo rhesymeg glir fel rhan o weithgarwch cyfranogol (er enghraifft, prosiectau sy'n cynnwys plant a phobl ifanc – lle byddai effaith negyddol ar lefel fynychu'r prosiect pe na bai hyn yn cael ei gynnwys yn y gyllideb – neu'r rhai lle mae rhannu bwyd yn rhan annatod o'r profiad diwylliannol). Yn yr achosion hyn, byddwn yn gallu ariannu costau rhesymol am brydau bwyd a lluniaeth.

Rydym ni'n gallu ariannu costau gofal plant rhesymol lle bo hyn yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i weithwyr unigol ar eu liwt eu hunain gymryd rhan yn y prosiect.  Bydd hyn yn arbennig o berthnasol lle bo cyfranogwyr yn annhebygol o allu fforddio mynychu heb y cymorth hwn – neu ar gyfer gweithgarwch sy'n galluogi pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i gymryd rhan.  Bydd angen ichi esbonio pam mae angen y cymorth hwn.  Dylid cynnwys costau gofal plant yn adran gwariant y gyllideb sydd wedi'i atodi i'ch cais.

## Cyfrifon banc

Rhaid inni archwilio'r ochr ariannol, felly byddwn ni'n gofyn ichi am dystiolaeth o'ch cyfrif banc. Ni allwn ddyfarnu arian ichi heb y wybodaeth hon.

Rhaid i'ch cyfrif banc enwebedig fodloni'n llawn yr amodau a nodir yn ein canllawiau ar-lein:

Sefydliadau yma

Unigolion yma

## Gwybodaeth Ychwanegol

### Rhyddid Gwybodaeth

Rydym wedi ymrwymo i fod mor agored ag sy'n bosibl. Rydym yn credu bod gan y cyhoedd hawl i wybod sut yr ydym yn gwario arian cyhoeddus. Gallwch weld manylion ein polisi yma.

O dan y gyfraith, mae'n bosibl y bydd rhaid inni roi eich dogfennau ymgeisio a gwybodaeth am ein hasesiad i unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n gofyn i'w gweld o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'n bosibl na fyddwn yn rhyddhau'r rhannau hynny o'r dogfennau mae un neu ragor o'r esemptiadau o dan y Ddeddf yn ymwneud â nhw. Gweler y wefan Rhyddid Gwybodaeth i gael rhagor o wybodaeth.

### Gweithdrefn Gwyno

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd yr ydym wedi ymdrin â'ch cais, gallwch weld copi o'n Gweithdrefn Gwyno ar ein gwefan yma.

Nodwch na allwch gwyno oni bai eich bod yn credu nad ydym wedi dilyn ein proses gyhoeddedig wrth ymdrin â'ch cais. Ni allwch ddefnyddio'r weithdrefn gwyno i apelio yn erbyn y penderfyniad.

### Atal Twyll

Mae ariannu cyhoeddus yn dibynnu ar uniondeb y ceisiadau a gawn. Dylech ateb yr holl gwestiynau'n llawn, yn glir ac yn onest. Os byddwch yn cynnwys gwybodaeth anghywir, mae'n bosibl y bydd angen inni hawlio cyllid yn ôl ar ddyddiad diweddarach neu gymryd camau eraill os byddwn yn amau twyll.

Bydd gwybodaeth a gesglir trwy'r broses ymgeisio yn cael ei rhannu ag asiantaethau atal twyll, a fydd yn ei defnyddio i atal camddefnyddio arian cyhoeddus a gwyngalchu arian ac i wirio eich hunaniaeth.  Ceir rhagor o wybodaeth am y ffordd y gellid defnyddio'ch gwybodaeth yn ein Polisi Preifatrwydd.

### Diogelu Data

Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o'n rhwymedigaethau a chyfrifoldebau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Mae'r Rheoliad yn nodi sut yr ydym yn casglu, rheoli, rhannu a storio data personol. Mae hefyd yn diffinio'ch hawliau chi mewn perthynas â'r ffordd yr ydym yn rheoli'ch data.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth yn ein Polisi Preifatrwydd cyhoeddedig. Ni fyddwn yn datgelu data personol na data personol sensitif (fel y'u diffinnir yn y Rheoliadau heb eich cydsyniad oni fo rhwymedigaeth drechol yn berthnasol (e.e. rhwymedigaeth gyfreithiol).

## Beth os oes gen i gwestiwn?

Os ydych chi eisiau gwybod a ydych chi neu'ch cais yn gymwys, neu os hoffech drafod cwestiynau eraill am y gronfa hon, dylech gysylltu â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth.

Gallwch wneud hyn trwy e-bost, trwy ein gwefan neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol:

E-bost: grantiau@celf.cymru

Gwefan: Llenwi ffurflen ar ein gwefan

Twitter: Anfon trydariad atom @Celf_Cymru

Ein nod yw ymateb i bob ymholiad yn fuan iawn. Os ydych chi eisiau i ni eich ffonio'n ôl, rhowch eich rhif cyswllt a byddwn yn trefnu cysylltu â chi cyn gynted ag sy'n bosibl.

## Ffyrdd eraill o gysylltu â ni

03301 242733

9.00am - 5.00pm ddydd Llun-Iau

9.00am - 4.30pm ddydd Gwener

Cysylltwch â ni

Cyngor Celfyddydau Cymru

@Celf_Cymru

celfcymruarts